

# 10 awgrym defnyddiol

## i wella eich cais

Mae gwneud gwell cais, neu 'achos dros gymorth', yn hanfodol ar gyfer unrhyw sefydliad sy'n chwilio am gyllid. Dyma fydd congflaen unrhyw ymgyrch codi arian, a gall helpu i hyrwyddo eich cyflawniadau gorau.

Rydym yn rheoli amrywiaeth eang o raglenni ar ran ein cleientiaid preifat, ymddiriedolaethau a sefydliadau yn y DU ac amrywiaeth o gronfeydd gwaddol sy'n buddsoddi mewn atgyfnerthu cymunedau.

Mae ein grantiau yn cydnabod rôl ysbrydoledig grwpiau cymunedol, prosiectau ac elusennau yn y gwaith o nodi a diwallu anghenion lleol. Rydym hefyd yn dyfarnu grantiau addysgol ac ysgoloriaethau.

### Edrychwch ar yr awgrymiadau defnyddiol hyn cyn dechrau ar eich cais:

- 1.** Bydd gan bob rhaglen ei **meini prawf unigryw** ei hun a fydd yn esbonio nodau'r gronfa, pwy sy'n gallu gwneud cais a beth y gallwch wneud cais amdano. Darllenwch y wybodaeth hon yn ofalus. Gwnewch yn siŵr bod unrhyw gais a wnewch am gyllid yn gais i ariannu prosiect y mae'n realistig disgwyl i chi/eich sefydliad ei gyflawni.
- 2.** **Gwnewch yn siŵr bod gennych drefniadau llywodraethu da.** Rydym yn edrych ar y sefydliad gymaint ag yr ydym yn edrych ar y prosiect. Mae dogfennau llywodraethu yn cynnwys y wybodaeth graidd am eich sefydliad a dylent fod yn ddogfennau gweithio – dogfen lle y caiff y cynnwys ei roi ar waith – nid dogfen sy'n cael ei chadw ar silff a'i hanwybyddu. Mae cyfrifon a/neu Daflenni Incwm a Gwariant yn ffordd allweddol o asesu iechyd eich sefydliad. Ni chaiff grant ei ddyfarnu os bydd y sefydliad yn peri risg oherwydd trefniadau rheoli gwael a/neu weithdrefnau ariannol gwael. Sicrhewch fod trefn ar y dogfennau hyn a dylech **BOB AMSER** eu cynnwys gyda'ch cais erbyn y dyddiad cau perthnasol.
- 3.** Ystyr **Cronfeydd Anghyfyngedig** (y cyfeirir atynt weithiau fel 'Cronfeydd Rhydd') yw cronfeydd nad ydynt wedi'u hymrwymo ar gyfer defnydd penodol. Mae'n arfer dda pennu terfyn gwerth rhwng chwech a naw mis o gostau gweithredu mewn cronfeydd anghyfyngedig a rhoi polisi ar waith mewn perthynas â hyn. Gallai peidio â chael cronfeydd anghyfyngedig godi pryderon bod eich sefydliad yn annhebygol o oroesi yn y byrdymor a bod y prosiect yn annichonadwy. Mae angen i ni ddeall bod eich Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r risg hon ac yn cymryd camau i gynyddu lefelau'r cronfeydd anghyfyngedig yn yr hirdymor.

Gallai lefel uchel o gronfeydd anghyfyngedig awgrymu bod eich sefydliad mewn sefyllfa iach gyda llawer o arian yn y banc. Byddai'n ymddangos felly nad oes angen grant ar eich sefydliad. Dylech esbonio os yw'r cronfeydd anghyfyngedig uchel hyn yn deillio o gynilion a gafodd eu neilltuo at ddiben penodol – i brynu safle er enghraifft. Byddwch yn onest am y ffigur hwn yn y ffurflen gais gan y gellir gwirio hyn yn eich cyfrifon blynyddol.

4. Rydym am weld eich bod yn **adnabod eich cymuned** yn dda ac yn deall y problemau y mae'n eu hwynebu. Dywedwch wrthym am y problemau hyn a sut maent yn effeithio ar y bobl rydych yn gweithio gyda nhw. Ceisiwch beidio â defnyddio ystadegau cyffredinol, mae gwybodaeth leol sy'n ymwneud â'ch ardal yn fwy realistig, ond gwnewch yn siŵr ei bod yn berthnasol i'r bobl rydych yn gweithio gyda nhw. Sicrhewch fod eich cais yn ffeithiol; peidiwch â gorliwio eich hawliad ond peidiwch chwaith â thanbriso'r gwerth rydych yn ei gynnig i gymuned.
5. Ysgrifennwch gais mewn **Cymraeg neu Saesneg clir**, gan osgoi defnyddio jargon a thalfyriadau. Peidiwch â chymryd yn ganiataol y byddwn yn gwybod am beth rydych yn sôn – esboniwch bopeth yn gryno.
6. **Sicrhewch fod eich ffigurau'n gywir**. Mae darparu dadansoddiad o gostau i ni yn ein helpu i weld bod y prosiect rydych yn gofyn am gyllid ar ei gyfer wedi'i gynllunio a bod pob cost wedi cael ei hystyried. Os ydych yn gwneud cais am gyllid rhannol, rhowch wybod i ni pa gostau penodol yr hoffech i'r cyllid grant eu talu, a ble/sut rydych yn bwriadu talu'r costau sy'n weddill. Os yw hyn yn cynnwys ceisiadau am grantiau eraill, rhowch wybod i ni pa rai rydych wedi gwneud cais amdanynt a phryd rydych yn disgwyl cael gwybod y canlyniad.
7. Ystyriwch **pam mae angen eich prosiect**, a sut rydych yn gwybod hyn. Esboniwch y broses rydych wedi'i dilyn er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth hon. Cofiwch gynnwys unrhyw ymgynghoriad cymunedol, unrhyw wybodaeth leol berthnasol a'r gwaith o fonitro prosiect lle mae gwaith yn mynd rhagddo. Mae hyn yn dangos i ni eich bod wedi ystyried barn eich buddiolwyr ac wedi defnyddio'r wybodaeth honno i lywio'r prosiect rydych yn ei gynnig. Byddwch yn frwd dros eich gwaith, dywedwch wrthym pam mae eich sefydliad yn arbennig ac esboniwch pam mae eich buddiolwyr yn credu eich bod chi'n arbennig.
8. **Sut y byddwch yn gwybod bod eich prosiect wedi llwyddo**, a sut y byddwch yn mesur hyn? Cofiwch roi gwybod i ni yn eich cais. Er enghraifft:
  - Cynnydd mewn aelodaeth o X i Y dros 12 mis.
  - Adborth ffurfiol drwy ddau holiadur ar ddechrau ac ar ddiwedd y prosiect.
  - Clipiau fideo sy'n dangos barn y buddiolwyr.
  - Adborth gan drydydd parti megis athrawon, cymdogion neu rieni.
9. Dywedwch wrthym mor glir â phosibl **ar beth yr hoffech wario'r cyllid**. Dylai hyn gynnwys cymaint o fanylion â phosibl.
10. Yn olaf, gofynnwch **i rywun nad yw'n gyfarwydd â'r prosiect na'r sefydliad i ddarllen y cais** cyn i chi ei gyflwyno – os yw'n deall yr hyn rydych yn ei gynnig, mae hynny'n arwydd da y byddwn ni'n deall hefyd.

**Pob lwc!**